Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth MID 04-01(p.5b)

Agenda

Dyddiad: Dydd Gwener 2 Tachwedd 2001

Amser: 10.30am hyd 1.00pm

Lleoliad: Neuadd y Pentref, Aberporth

Cyfarfod Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth

2 Tachwedd, 2001

Neuadd Bentref Aber-porth, Aberporth

Cyflwyniad gan y Cyng. Dai Lloyd Evans, Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion

1. Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Bwyllgor Rhanbarth y Cynulliad am roi'r eitem hon ar eich agenda heddiw. Mae'r diffyg cyflenwad dr digonol yn fater o bwys nid yn unig o ran datblygu Safle Strategol Gorllewin Cymru yn Aber-porth ond ar gyfer y Sir gyfan a Gorllewin Cymru'n gyffredinol. Mae'n hen bryd trafod y mater a gobeithiaf y gwnaiff y cyflwyniadau a gawsoch a'r cyflwyniadau heddiw agor llygaid a meddyliau pawb sydd â rhan yn hyn er mwyn inni sicrhau'r buddsoddiant angenrheidiol er ffyniant Gorllewin Cymru.

2. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymfalchïo o ran hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y gymuned leol. Mae gan y Cyngor Sir chwech o amcanion corfforaethol sy'n sail ac yn ffocws i'r hyn y bydd yr awdurdod yn ei wneud i hybu lles y gymuned leol. Mae'r "diffyg adnoddau dr" – fel y cydnabu Dr Cymru, yn debygol o rwystro'r Cyngor Sir rhag cyflawni rhai o'r nodau allweddol sydd yn ein Strategaeth Gorfforaethol, a bydd yn effeithio'n ddirfawr dybiwn i ar allu'r Cynulliad Cenedlaethol i gyflawni ei rwymedigaethau a'i dargedau ar gyfer y rhanbarth fel y nodir yn ei Strategaeth Gorfforaethol yntau "GwellCymru.com. Mae Strategaeth y Cynulliad "GwellCymru.com" yn sôn am greu cyfoeth, buddsoddi yn ein dyfodol, darparu cyfleusterau newydd a gwell a chreu gweledigaeth newydd ar gyfer Cymru. Mae'n anodd dychmygu sut y gellir cyflawni'r strategaethau a'r cynlluniau gweithredu sydd yn Strategaeth y Cynulliad ei hunan, "GwellCymru.com", dan y cyfyngiadau hyn yn y cyflenwad y dr. Mae'r Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol (SDEG), Ffermio ar gyfer y Dyfodol, Ardal Dwf Twristiaeth Ceredigion a'r Cynllun Gweithredu Adferiad Cefn Gwlad yn strategaethau ac yn gynlluniau gweithredu cymeradwy ond mae'r grantiau a'r gefnogaeth a gynigir ynddynt yn ddi-werth heb fuddsoddi digonol yn yr isadeiledd sylfaenol sy'n galluogi datblygiadau i ddigwydd.

3. Dim ond am gyfnod byr y bydd rhaglen Amcan 1 yn weithredol yma, hyd 2007, ac mae'n gyfle i geisio cael y rhod i droi o ran yr economi lleol a gwella buddsoddiant, creu cyfoeth a swyddi yng Ngorllewin Cymru. Mae gan Gyngor Sir Ceredigion, y mudiadau sy'n bartneriaid ag ef a grwpiau cymunedol lleol syniadau yngln â sut y gellid gwella perfformiad yr economi lleol ond mae'r cynlluniau hyn oll yn y fantol oherwydd diffyg o ran un o anghenion mwyaf sylfaenol a gwaelodol y gymuned - dr.

4. Mae'r awdurdod eisoes wedi dechrau cynllunio ar gyfer dyfodol y Sir drwy baratoi Cynllun Datblygu Unedol drafft sy'n braenaru'r tir, yn dyrannu tir ac yn nodi polisïau cynllunio ar gyfer datblygiad a thwf y Sir. Mae'n werth dyfynnu rhai o'r ymatebion a gafwyd wrth ymgynghori o ran y pryder am y diffyg yn y cyflenwad dr. Hoffwn ddyfynnu o ddau lythyr o wrthwynebiad, yn gyntaf gan Ddr Cymru :

   "Nid oes dewis gan Dd•r Cymru ond gwrthwynebu pob datblygiad am y rheswm ei fod cyn pryd, ac eithrio safleoedd penodol a nodir yn y Cynllun Lleol, bydd yr embargo hwn ar bob datblygiad newydd yn cynnwys cynigion i ddatblygu o fewn y terfynau presennol ….. a byddai'n gwahardd pob datblygiad sydd heb ei nodi, hyd yn oed tai unigol …. Ni fyddai dim safleoedd unigol na galw annomestig ychwanegol yn dderbyniol ."

   Mae'r ail ddyfyniad gan Asiantaeth yr Amgylchedd sy'n dweud;

   "mae'n amlwg bod angen cymryd camau i unioni'r cydbwysedd rhwng y cyflenwad a'r galw. Heb gymryd y camau hynny ni all yr ardal gyflenwi gyflawni'r galw am ddr. Bydd unrhyw ddatblygu pellach, megis yr hyn a arfaethir yn Aber-porth, yn arwain at brinder cynyddol."

   Mae'r tîm sy'n cyflwyno ger eich bron chi yma heddiw'n cydnabod bod hon yn sefyllfa annerbyniol. Sut y daethom i'r fath dwll?

5. Dylem gofio mai y tu allan i Gaerdydd mai Ceredigion yw'r Sir a fu'n tyfu gyflymaf o blith holl siroedd Cymru yn ystod y 10 mlynedd diwethaf gyda thwf o 7.8% yn y boblogaeth. Os bydd y duedd hon yn parhau fe allai hynny olygu y bydd rhwng 5,000 a 6,500 o gartrefi newydd a chwsmeriaid dr newydd tros y 15 mlynedd nesaf. Bydd angen darparu amrywiaeth o safleoedd ac adeiladau cyflogaeth o safon dda i gynnal y twf yma a chynnal cymuned leol hyfyw a chynaliadwy. Bydd y Cynllun Datblygu Unedol yn dyrannu tir ac yn darparu polisi cynllunio a seilir ar feini prawf i helpu i hybu datblygu ar draws y sir. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau sydd ohoni oherwydd prinder adnoddau dr a'r gwrthwynebiadau i'r CDU yn sgil hynny'n golygu na chaiff llawer o safleoedd eu datblygu achos, fel y gwyddom ni oll, fe aiff datblygwyr sydd am ehangu neu fuddsoddi o'r newydd i chwilio yn rhywle arall pan ddaw'n amlwg y gallai fod cyfyngiadau ar eu cynigion o ran cynllunio ac isadeiledd.

6. Yn ddiweddarach yng nghyflwyniad Dr Cymru fe glywch chi am y dewisiadau tymor hir ar

gyfer unioni'r sefyllfa annerbyniol hon. Fodd bynnag, os na fydd cyllid ar gael ar gyfer y dewisiadau hyn credaf y gallai'r gymuned leol, yr asiantaethau datblygu a'r sector preifat yng Ngheredigion, Gogledd Sir Gaerfyrddin a Gogledd Sir Benfro golli cyfleoedd pwysig dan y rhaglen Amcan 1. Ar Ofwat mae'r cyfrifoldeb am oruchwylio buddsoddiant a pholisïau prisio'r cwmnïau dr. Mae'r ymatebion a gafodd y Cyngor Sir gan Dd•r Cymru ac Ofwat yn awgrymu bod angen deialog agosach a nodau cytûn rhwng y corff rheoleiddio a darparydd y gwasanaeth ac, yn wir, deallaf fod trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng y ddau gorff yr eiliad hon. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod y ddeialog hon yn esgor ar ffordd ymarferol ymlaen ac y bydd Ofwat yn medru cymeradwyo cynlluniau i alluogi gwireddu'r dewisiadau tymor hir. Nid yw'n glir a yw Ofwat yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i'r Llywodraeth genedlaethol yn San Steffan a hoffwn wahodd y Cynulliad i ystyried y modd y bydd ein Llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru'n ymwneud gydag Ofwat o ran ei rôl fel corff sy'n gwarchod defnyddwyr.

7. Mae'r term prinder dr wedi troi'n ffaith ac wrth inni weld defnydd yn cynyddu, datblygiadau newydd yn cael eu codi a rheolyddion ychwanegol yn debygol o ran tynnu dr o Afon Teifi, gwelwn fod y cyflenwad dr yn mynd yn un o'r materion pwysicaf o ran lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymuned Ceredigion. Fe allai Strategaethau Corfforaethol y Cyngor Sir a strategaeth y Cynulliad ei hunan, GwellCymru.com, gael eu llesteirio oherwydd y diffyg cyflenwad dr yn y rhanbarth.

8. Mae datblygiad Aber-porth yn enghraifft wych o'r gwelliannau sylweddol y gellid eu cyflawni ym mherfformiad yr economi lleol. Mae'r Cyngor Sir wedi rhoddi caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer Rhan I o'r datblygiad a chyn hir bydd yn ystyried y cais cyfredol ar gyfer datblygu gweddill y safle a'r maes awyr. Byddai'n amhriodol ar hyn o bryd imi roi sylwadau am fanylion a rhinweddau'r cais cyn i'r Pwyllgor Cynllunio gael yr adroddiadau terfynol gan y swyddogion. Fodd bynnag, byddwn yn esgeulus pe na bawn yn dweud bod cynigion ac ymholiadau ar gyfer twf busnesau a buddsoddiant (yn enwedig o ran prosesu cynnyrch ffermydd a bwyd lleol) yn cael eu llesteirio gan y diffyg cyflenwad dr yn y rhanbarth.

9. Hyd yn oed o roi cyfrif am yr amrywiol fentrau i arbed dr a rheoli'r glaw/cyflenwad yn ofalus, bydd y defnydd ar ddr yn sir o gynyddu tros y blynyddoedd sydd i ddod ac nid oes ond un ateb i'r sefyllfa anfoddhaol hon, a hwnnw yw cysoni'r cyflenwad y dr gydag ardal gyflenwi Canol/De Ceredigion gyfan.

10. Hoffwn annog y Cynulliad i roi ystyriaeth ddifrifol i ganlyniadau'r diffyg buddsoddiant yma a phwyso am fuddsoddiant cyfalaf ar fyrder er lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y rhan hon o Geredigion.